


Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Crynodeb o'r strategaeth a ffefrir – cam 5.



Cyflwyniad

Mae Conwy yn tyfu ac yn datblygu:

- Mae ein cymunedau bob amser yn newid.
- Mae pobl yn symud i mewn ac mae eraill yn symud allan.
- Mae angen cartrefi, ysgolion, busnesau, ffyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth newydd.
- Mae technoleg yn golygu ein bod ni'n byw ac yn gweithio mewn ffyrdd newydd.

Mae hyn yn dod â llawer o gyfleoedd ond hefyd rhai heriau. **Mae angen inni gynllunio rŵan ar gyfer y dyfodol.**

Mae ein Cynllun Datblygu Lleol wedi bod ar waith am y 5 mlynedd diwethaf, ond rŵan mae gennon ni un arall yn ei le.

Rydyn ni wedi gwrandao ar bobl ledled Conwy ac wedi ysgrifennu'r strategaeth hon rydyn ni'n ei ffafrio ar gyfer ymgynghori.



Amserlen

Cam 1

Fe wnaethon ni edrych ar Adroddiad Adolygu'r CDLL. Fe helpodd hyn ni i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid.

Cam 2

Fe wnaethon ni sefydlu Cytundeb Cyflenwi ac amserlen.

Cam 3

Fe wnaethon ni ofyn i dirfeddianwyr, datblygwyr ac eraill i awgrymu unrhyw safleoedd y gallen ni eu defnyddio.

Cam 4

Fe wnaethon ni wrando ar gymunedau, datblygwyr ac eraill i gael gwybod eu barn nhw am sut i ddefnyddio'r tir.

Cam 5

Rydyn ni wedi ysgrifennu'r **strategaeth hon a ffefrir.**

Rydyn ni eisiau cael gwybod beth rydych chi'n ei feddwl o'n cynlluniau a'r lefelau twf.



Ydy'r strategaeth hon:

- yn darparu digon o gartrefi newydd a thai fforddiadwy?
- yn darparu digon o swyddi newydd i gyfrannu at dwf economaidd?
- yn darparu digon o seilwaith i gefnogi twf?
- yn paratoi Conwy ar gyfer y dyfodol?

Cam 6

Ysgrifennu'r cynllun terfynol a gofyn i'r cyhoedd edrych arno cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Cam 7

Arolygydd yn archwilio'r cynllun a gyflwynir mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Ar ôl hyn, yr Arolygydd yn ysgrifennu adroddiad ar ein cynllun.

Cam 8

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn mabwysiadu'r cynllun ar sail adroddiad yr Arolygydd.



Gweledigaeth

Erbyn 2033, fe fyddwn ni'n gweld:

Conwy â mwy o gyfleoedd i fyw, gweithio ac ymweld.		Conwy sy'n cynnig bywyd o ansawdd da i bawb.		Conwy lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.		Conwy lle mae pobl hŷn yn egnïol ac yn iach.	
	Conwy lle mae pobl ifanc yn cael cyfleoedd gwell.		Conwy â thai wedi'u dylunio'n dda ar sail anghenion lleol.		Conwy lle mae creu lleoedd wedi arwain at leoedd iach a bywiog.		Conwy sy'n ymgysylltu â Bargaen Twf y Gogledd.
Conwy sydd â hybiau cyflogaeth wedi'u hadeiladu o gwmpas cysylltiadau trafnidiaeth.		Conwy â threfi a phentrefi ffyniannus.		Conwy ag economi wledig gref a hyfw.		Conwy lle mae teithio a buddsoddi mewn seilwaith yn gynaliadwy.	
	Conwy sy'n mynd i'r afael â'r pethau sy'n achosi ac yn effeithio ar newid yn yr hinsawdd.		Conwy sy'n diogelu ac yn mwynhau ein treftadaeth ddiwylliannol.		Conwy lle mae natur yn cefnogi ein llesiant a'n bywyd gwyllt.		Conwy ag economi twristiaeth trwy gydol y flwyddyn.



Ynglŷn â'r cynllun

I'n helpu ni i greu y cynllun hwn fe wnaethon ni:

- gynnal digwyddiadau o gwmpas Conwy
- gwrandao ar gymunedau, busnesau a datblygwyr
- trafod yr heriau
- gofyn am awgrymiadau
- edrych ar yr opsiynau
- ysgrifennu 47 o bapurau cefndir a 12 o bapurau testun yn rhoi tystiolaeth
- ystyried adborth ac ymatebion

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi ac yn annog creu lleoedd fel rhan bwysig o'r siwrnai.

Mae a wnelo creu lleoedd â chynnwys pawb yn y cynllunio i wneud y defnydd gorau o leoedd.

Oherwydd, pan rydych chi'n byw yn rhywle rydych chi'n gwybod:

- beth sydd ei angen ar bobl
- beth sydd wedi gweithio yn y gorffennol
- a beth sydd heb weithio



Amcanion

Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy

Mae yna gysylltiad rhwng y cynllun hwn a chynlluniau a pholisïau eraill sy'n effeithio ar Gonwy. Mae eu defnyddio nhw gyda'i gilydd yn ein helpu ni i siapio Conwy a'i wneud yn lle cynaliadwy.

➡ Amcan 1

Creu lleoedd cynaliadwy, cynhwysol a gwella llesiant yng Nghonwy. Gwneud yn siŵr bod twf a datblygiad yn y dyfodol:

- yn digwydd yn y lleoliadau iawn
- yn hybu dylunio da a lleoedd iachach
- yn diogelu'r Gymraeg
- yn cael eu cefnogi gan seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd i greu lleoedd gwych.

Gellir gwneud hyn trwy greu lleoedd ac adfywio.

Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy

Mae'r cynllun hwn yn hybu cymunedau cysylltiedig – lleoedd diogel ac iach sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.

➡ Amcan 2

Hybu twf cyflogaeth a thai:

- cyflenwi tai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy
- diwallu anghenion llety sipsiwn a theithwyr
- gwneud yn siŵr bod yna'r seilwaith sydd ei angen.

➡ Amcan 3

Creu canol trefi bywiog, deniadol a hyfyw - gan ail-lunio'u rôl ac annog arallgyfeirio.

➡ Amcan 4

Ychwanegu naws am le, iechyd, llesiant a swyddogaeth at gymunedau trwy gael cymysgedd o gyfleusterau.

➡ Amcan 5

Annog llesiant corfforol a meddyliol trwy fannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden.

➡ Amcan 6

Datblygu yn gynaliadwy ac ymdrin â'r pethau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd.



Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy

Mae'r cynllun hwn yn helpu i ddod â chyflogaeth a datblygiad economaidd.

Amcan 7

Cefnogi twf economaidd, ffyniant, arallgyfeirio ac adfywio yn y tymor hir:

- manteisio ar ein lleoliad rhanbarthol
- cael y math iawn o dwf swyddi yn y lleoliadau iawn
- cefnogi rhwydweithiau a chlystyrau busnes
- cynyddu sgiliau
- gwella'r seilwaith

Amcan 8

Annog twristiaeth gynaliadwy

Amcan 9

Cefnogi cymunedau gwledig fel eu bod nhw'n gynaliadwy a bywiog.

Amcan 10

Sicrhau darpariaeth ynni gymysg – gan hybu'r Morlyn Llanw newydd.

Amcan 11

Cyfrannu at ddechrau'r economi gylchol trwy:

- gefnogi arloesi
- rheoli gwastraff
- rheoli defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol

Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy

Mae'r cynllun hwn yn gwerthfawrogi ein tirwedd a'n hamgylchedd hanesyddol – gan wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael eu diogelu ac yn gallu wynebu heriau'r newid yn yr hinsawdd.

Amcan 12

Amddiffyn a gwella asedau ein treftadaeth naturiol a diwylliannol.

Amcan 13

Cefnogi twf a datblygiad mewn Ardaloedd Arfordirol – gan fod yn ymwybodol o heriau natur.

Amcan 14

Diogelu a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu ecosystemau gwydn.

Amcan 15


Lleihau llygredd aer a sŵn.



Datblygu yn y lleoedd iawn

Mae a wnelo'r cynllun hwn â mwy na thai; mae'n ystyried:

- twf economaidd – twf cyflogaeth a busnes
- darpariaeth gwasanaethau – addysg, ysgolion, gwasanaethau iechyd
- darpariaethau seilwaith – ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau seiclo a cherdded
- diogelu mannau gwyrdd, treftadaeth a diwylliant – coetiroedd, parciau a chymunedau gwledig




Twf Newydd

Twf tai

Fe fydd y cynllun hwn yn ychwanegu **4,300** o gartrefi newydd gan gynnwys **1,800** o gartrefi fforddiadwy. Mae hyn yn **290 o gartrefi** bob blwyddyn hyd at 2033.

Fe fydd y tai hyn yn cefnogi anghenion gwledig a threfol.




Twf swyddi

Nod y cynllun hwn ydy ychwanegu **1,800** o swyddi newydd.


Fe fydd angen **12 - 14 hectar o dir** – mae hwn wedi'i seilio ar y nodau twf a chreu swyddi ym Margen Twf y Gogledd.

Mae'r cynllun newydd yn cynnwys defnyddio tir ar gyfer



Fe fydd y twf tai a thwf swyddi'n digwydd dros y 15 mlynedd nesaf. Ceir manylion am y camau cyntaf ar gyfer pob un o'r pum ardal strategol isod.

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir Gorllewin



Fe fydd **10%** o dwf tai'r cynllun hwn yn yr ardal hon.



Fe fydd **0%** o dwf swyddi'r cynllun hwn yn yr ardal hon.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio twf yn **Llanfairfechan**:

- tua **400** o gartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- ysgol gynradd newydd
- mannau hamdden newydd
- rhandiroedd
- gwelliannau i lwybrau cerddwyr, i leihau traffig mewn ardaloedd preswyl
- gwelliannau ar gyfer cysylltiadau teithio llesol, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus

Fe fydd y safle hwn yn cael ei ddatblygu fesul cam rhwng 2021 a 2029

Er bod yna gysylltiadau trafndiaeth a chyfleusterau da ym **Mhenmaenmawr**, mae siâp a nodweddion y tir sydd ar gael yn golygu y bydd twf tai yn digwydd yn **Llanfairfechan**.

Mae yna gysylltiadau trafndiaeth da yn **Nwygyfylchi** a **Chapelulo** ond bydd lefel y twf yn adlewyrchu eu maint, eu cyfleusterau a'u gwasanaethau.



- | | |
|-------------------------------------|------------------------------------|
| Cyswllt Cymunedol/ Rhyng-gysylltedd | Mynedfa i'r Safle |
| Ardal Chwarae Plant | Llwybr Beicio/Teithio Llesol Cymru |
| Ysgol y Dyfodol | Llwybr cerdded / parc coetir |
| Rhandiroedd Dynodedig | Tai'r Dyfodol |
| Ardal Gemau Amlddefnydd | Ardal Hamdden |
| Safle Bws | Parc Sglefrio |

Creuddyn



Fe fydd **30%** o dwf tai'r cynllun hwn yn yr ardal hon.



Fe fydd **30%** o dwf swyddi'r cynllun hwn yn yr ardal hon.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio twf yn **Llanrhos**:

- tua **250** o gartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- 1 hectar o dir B1 (tir ar gyfer swyddfeydd) i hybu clystyrau cyflogaeth
- ysgol gynradd newydd,
- rhandiroedd a mannau hamdden
- cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol gwell


Fe fydd y safle hwn yn cael ei ddatblygu fesul cam rhwng 2024 a 2031.

Caiff **Canol Tref Llandudno** ei ddiogelu a'i wella. Oherwydd newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn siopa, ni fydd yna unrhyw dwf pellach o ran ardaloedd manwerthu.

Mae **Cyffordd Llandudno** yn hyb economaidd. Fe fydd adfywio a gwelliannau i'r ardal yn ei gefnogi.

Twf tai a chyflogaeth cyfyngedig fydd i **Gonwy** oherwydd ei statws amgylcheddol a hanesyddol. Fe fydd yna ddull cytbwys o fynd ati i wneud yn siŵr ein bod ni'n diwallu anghenion y gymuned ac yn tyfu twristiaeth.

Twf cyfyngedig fydd i **Lan Conwy** oherwydd y tir sydd ar gael a materion amgylcheddol.



Cyswllt Cymunedol/
Rhyng-gysylltedd



Ardal Chwarae Plant

Ysgol y Dyfodol

Rhandiroedd Dynodedig

Ardal Gemau
Amldeffnydd

Golygfa Bresennol ac a
gynhelir o Gastell Deganwy

Safle Bws

Mynedfa i'r Safle

Llwybr Beicio/Teithio
Llesol Cymru

Llwybr cerdded / parc
coetir


Tai'r Dyfodol

Ardal Hamdden

Tir Masnachol
Dynodedig

Parc Sglefrio

Canolog



Fe fydd **35%** o dwf tai'r cynllun hwn yn yr ardal hon.



Fe fydd **10%** o dwf swyddi'r cynllun hwn yn yr ardal hon.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio twf yn **Hen Golwyn**:


- tua **450** o gartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- mannau hamdden newydd

Fe fydd hyn y digwydd fesul cam a bydd y canlynol yn ei gefnogi:



- gwelliannau i'r briffordd
- cysylltiadau gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus a theithio llesol gwell
- gwelliannau i'r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos
- meddygfa newydd

Fe fydd y safle hwn yn cael ei ddatblygu fesul cam rhwng 2024 a 2033.

Mae **Bae Colwyn** yn cefnogi'r ardal gyfagos. Fe fydd buddsoddiad a gwelliannau i ganol y dref ac ardal y traeth yn parhau.



- Ffordd Dosbarthwr Lleol
- Celloedd Datblygu Arfaethedig
- Tirwedd Presennol/ Arfaethedig
- Llwybrau Cerddwyr
- Mannau Chwarae Arfaethedig
- Nodau Allweddol
- Rhandiroedd Arfaethedig
- Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) arfaethedig



Fe fydd **15%** o dwf tai'r cynllun hwn yn yr ardal hon.

Fe fydd **50%** o dwf swyddi'r cynllun hwn yn yr ardal hon.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio twf yn **Ne Ddwyrain Abergele**:

- tir a ddefnyddir ar gyfer cyflogaeth defnydd cymysg
- man hamdden
- ysgol newydd
- siopau manwerthu

Fe fydd y safle hwn yn cael ei ddatblygu fesul cam rhwng 2021 a 2027.

Fe fydd canol trefi **Abergele** a **Phensarn** yn cael eu gwella.

Mae **Pensarn**, **Towyn** a **Bae Cinnel** yn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd felly nid oes bwriad rhoi unrhyw dai newydd yno.

Fe fydd twf tai **Llanddulas** yn adlewyrchu anghenion lleol.


Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig



Fe fydd **10%** o dwf tai'r cynllun hwn yn yr ardal hon.



Fe fydd **10%** o dwf swyddi'r cynllun hwn yn yr ardal hon.



Mae'r ffocws yn yr ardal hon ar dwf lleol ac arallgyfeirio.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio twf yn **Llanrwst**:

- tua **200** o gartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- mannau hamdden newydd
- rhandiroedd
- defnyddio tir cyflogaeth gwag ar Safle Diwydiannol Tŷ Gwyn

Fe fydd y safle hwn yn cael ei ddatblygu fesul cam rhwng 2021 a 2026.

Ar hyd ymyl ffin Llanrwst fe fyddwn ni'n ystyried datblygiadau i gefnogi cyflogaeth ac ar gyfer hyd at 20 o gartrefi fforddiadwy.

Fe fydd twf lleol ac arallgyfeirio'n cael eu hybu yng ngweddill yr aneddiadau gwledig.

Y camau nesaf

Mae'r cynllun llawn ar gael yma: conwy.gov.uk/cdlln

Os ydych chi eisiau chwarae rhan, fe fyddwn ni'n cynnal digwyddiadau galw heibio yn eich ardal.

Ewch i: conwy.gov.uk/gpcs/ymgyngoriadau i gael dweud eich dweud neu i archwilio'r data.

 cdll-ldp@conwy.gov.uk

 **Polisi Cynllunio Strategol**
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

 conwy.gov.uk/cdll

